**ADRAN 5**

## 5. Y CABINET

### 5.1 Cyflwyniad

Penodir y Cabinet i gyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny yn ôl y Gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn.

### 5.2 Ffurf a Chyfansoddiad y Cabinet

Bydd y Cabinet yn cynnwys:

5.2.1 Arweinydd(ion) y Cyngor (yr "Arweinydd"); ac

5.2.2 o leiaf ~~ddau~~dau ond dim mwy na naw Cynghorydd arall a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd. Yn unol ag adran 5.13.2(b), gellir codi'r nifer hwn i 13 yn achos rhannu swydd.

### 5.3 Yr Arweinydd

5.3.1 Ethol

a) Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd a etholwyd i swydd yr Arweinydd gan y Cyngor.

b) Gellir ethol dau neu fwy o Gynghorwyr i rannu swydd yr Arweinydd gan y Cyngor.

5.3.2 Cyfnod yn y Swydd

Penodir yr Arweinydd(ion) am dymor y Cyngor.

5.3.3 Rôl yr Arweinydd(ion)

Bydd yr Arweinydd(ion) yn Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet ac yn pennu portffolios Aelodau'r Cabinet. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adran 13.

### 5.4 Dirprwy Arweinydd

5.4.1 Bydd yr Arweinydd(ion) yn penodi Dirprwy Arweinydd i weithredu fel Arweinydd yn ei (h)absenoldeb ef/hi. Caiff yr Arweinydd ddiswyddo'r Dirprwy Arweinydd hefyd ar unrhyw adeg os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

5.4.2 Caiff y Dirprwy Arweinydd arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd(ion) pan fo'r swydd yn wag neu pan fo'r Arweinydd(ion) yn absennol neu'n methu â gweithredu fel arall.

### 5.5 Aelodau Eraill y Cabinet

Bydd Aelodau eraill y Cabinet yn Gynghorwyr a benodwyd i swydd Aelod o'r Cabinet gan yr Arweinydd~~.~~(ion). Bydd pob Aelod o'r Cabinet yn dal y swydd hyd nes:

5.5.1 y bydd ef/hi yn ymddiswyddo o'r swydd honno; neu

5.5.2 y caiff ef/hi ei (d)diswyddo o'r swydd honno gan yr Arweinydd ar ôl i'r Arweinydd roi'r cyfryw gyfnod o rybudd (os o gwbl) ag y mae'n ystyried sy'n briodol; neu

5.5.3 y bydd ef/hi yn peidio â bod yn Gynghorydd.

Caiff yr Arweinydd(ion) benodi Aelod o'r Cabinet ar unrhyw adeg i lenwi unrhyw swyddi gwag.

**5.6 Dirprwyo Swyddogaethau**

Caiff yr Arweinydd(ion) arfer Swyddogaethau Gweithredol ei hun/hunain neu, fel arall, wneud trefniadau i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros eu cyflawni. Caiff yr Arweinydd(ion) ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i'r canlynol:

5.6.1 y Cabinet yn ei chyfanrwydd;

5.6.2 un o Bwyllgorau'r Cabinet (sy'n cynnwys Aelodau gweithredol yn unig);

5.6.3 Aelod unigol o'r Cabinet;

5.6.4 cyd-bwyllgor;

5.6.5 awdurdod lleol arall neu weithrediaeth awdurdod lleol arall;

5.6.6 Swyddog dirprwyedig.

~~5.7~~

**5.7 Cynorthwywyr i'r Cabinet**

5.7.1 O dro i dro, gall Cynghorwyr eraill gael eu henwebu'n Gynorthwywyr i'r Cabinet gan yr Arweinydd(ion). Ni fydd Cynghorwyr o'r fath yn:

(a) Aelod Cabinet

(b) Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor

5.7.2 Ni fydd Cynorthwywyr i'r Cabinet yn cyfrannu yng ngwaith Gwneud Penderfyniadau'r Weithrediaeth, ond efallai y bydd yn gweithio'n agos gydag Aelod Cabinet

5.7.3 Gall Cynorthwywr i'r Cabinet gefnogi'r Aelod Cabinet drwy ddirprwyo tasgau fel y cytunwyd ar gyfer ei faes o gyfrifoldeb ef/hi, gan gynnwys mynychu/cadeirio cyfarfodydd; digwyddiadau siarad/agor; darllen a gwneud sylwadau ar bapurau; cyfarfod Swyddogion; cytuno ar ddatganiadau/sylwadau i'r wasg a gwneud cyfweliad; cynrychioli'r Cyngor ar grwpiau priodol. Fodd bynnag, ni fydd pwerau dirprwyedig gan Aelod Cefnogi'r Cabinet ac ni fydd hawl ganddo/i i bleidleisio mewn Cyfarfodydd y Cabinet na Chyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet nac i ddirprwyo ar gyfer yr Aelod Cabinet pan fydd yr Aelod Cabinet yn cael ei alw i ymddangos mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Bydd hawl gan Gynorthwywyr i'r Cabinet fynychu, a siarad yn, unrhyw gyfarfod o'r Cabinet neu bwyllgor Gweithredol y Cabinet.

## 5.8 Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod

Bydd trafodion y Cabinet yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y yn Adran 5.8 isod.

## 5.89 Rheolau Gweithdrefn y Cabinet

### 5.89.1 Dirprwyo gan yr Arweinydd

Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn ôl cyfarwyddyd yr Arweinydd, yn llunio cofnod ysgrifenedig o'r dirprwyaethau gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd(ion) i'w gynnwys yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am Swyddogaethau Gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn i ddod:

(a) maint unrhyw awdurdod a ddirprwywyd i Aelodau'r Cabinet yn unigol, gan gynnwys manylion y cyfyngiad ar eu hawdurdod;

(b) cylch gorchwyl a chyfansoddiad pa bwyllgorau Cabinet bynnag ag y bydd yr Arweinydd(ion) yn eu penodi ac enwau Aelodau'r Cabinet a benodir iddynt;

(c) natur a maint unrhyw ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i unrhyw awdurdod arall neu unrhyw drefniadau ar y cyd;

(ch) natur a maint unrhyw ddirprwyo i Swyddogion ynghyd â manylion unrhyw gyfyngiad ar y dirprwyo hynny, a theitl y Swyddog y gwneir y dirprwyo iddo/iddi.

### 5.89.2 Is-ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol

(a) Pan fydd y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet neu Aelod unigol o'r Cabinet yn gyfrifol am Swyddogaeth Weithredol, caiff ddirprwyo ymhellach i drefniadau ar y cyd neu Swyddog.

(b) Oni bai bod yr Arweinydd(ion) yn cyfarwyddo fel arall, caiff un o bwyllgorau'r Cabinet y dirprwywyd swyddogaethau iddo gan yr Arweinydd(ion) ddirprwyo ymhellach i Swyddog.

(c) Pan fydd Swyddogaethau Gweithredol wedi'u dirprwyo, ni fydd y ffaith honno'n atal yr unigolyn neu'r corff a ddirprwyodd y swyddogaethau dirprwyedig rhag eu cyflawni.

### 5.89.3 Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor

(a) Caiff yr Arweinydd(ion) ddiwygio'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol ar unrhyw adeg. Wrth wneud hynny, bydd yr Arweinydd(ion) yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r unigolyn, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd amlinellu maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar unrhyw unigoly, corff neu bwyllgor. Bydd y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor yn amlinellu'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

(b) Pan fydd yr Arweinydd(ion) yn ceisio tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar un o bwyllgorau'r Cabinet, ystyrir bod rhybudd wedi'i roi i'r pwyllgor hwnnw pan fydd wedi'i roi i'w gadeirydd.

5.~~8~~9.4 <u>Gwrthdaro Buddiannau</u>

(a) Pe byddai gan yr Arweinydd(ion) wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 y Cyfansoddiad hwn.

(b) Pe byddai gan unrhyw Aelod o'r Cabinet wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 Cyfansoddiad hwn.

(c) Os yw'r pŵer i arfer Swyddogaeth Weithredol wedi'i ddirprwyo i un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelod unigol neu Swyddog, a bod gwrthdaro buddiannau'n codi, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei harfer yn y lle cyntaf gan yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y ddirprwyaeth ac fel arall fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 y Cyfansoddiad hwn.

5.~~8~~9.5 <u>Cyfarfodydd y Cabinet – Pryd a Ble?</u>

Yr Arweinydd fydd yn pennu amlder ac amseriad cyfarfodydd y Cabinet. Bydd y Cabinet yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu mewn lleoliad arall i'w gytuno gan yr Arweinydd.

5.~~8~~9.6 <u>Cyfarfodydd Cyhoeddus neu Breifat o'r Cabinet?</u>

Bydd y Cabinet yn cynnal ei gyfarfodydd/chyfarfodydd yn gyhoeddus, ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 er enghraifft pan fydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei thrafod.

5.~~8~~9.7 <u>Cworwm</u>

(a) Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Cabinet fydd chwarter yr aelodau gan gynnwys yr Arweinydd(ion) neu'r Dirprwy Arweinydd.

(b) Y cworwm ar gyfer cyfarfod un o bwyllgorau'r Cabinet fydd dau.

Er osgoi amheuaeth bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.

Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.

5.~~8~~9.8 <u>Sut bydd Penderfyniadau'n cael eu Gwneud gan y Cabinet?</u>

(a) Bydd Penderfyniadau Gweithredol gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd yn cael eu gwneud mewn cyfarfod a gynullwyd yn unol â'r Rheolau

Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

(b) Pan ddirprwyir Penderfyniadau Gweithredol i un o bwyllgorau'r Cabinet, bydd y rheolau sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir ganddo yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd.

## 5.910 Sut y Cynhelir Cyfarfod y Cabinet?

### 5.910.1 Pwy fydd yn Llywyddu?

Bydd yr Arweinydd(ion) yn llywyddu unrhyw gyfarfod o'r Cabinet -neu ei bwyllgorau y mae'n bresennol ynddo. -Yn absenoldeb yr Arweinydd (ion), bydd y Dirprwy Arweinydd(ion) yn llywyddu. Yn ei (h)absenoldeb ef/hi, bydd unigolyn yn cael ei benodi i lywyddu gan y rhai hynny sy'n bresennol.

### 5.910.2 Pwy Gaiff Fynychu?

Amlinellir y manylion hyn yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn. Gweler hefyd Adran 3 o ran cyfranogiad Aelodau mewn cyfarfodydd.

### 5.910.3 Pa Fusnes?

Ym mhob cyfarfod o'r Cabinet, bydd y busnes canlynol yn cael ei gynnal:

(a) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(b) datganiadau o fuddiannau, os oes rhai;

(c) materion a atgyfeiriwyd i'r Cabinet (boed hynny gan Bwyllgorau Craffu neu gan y Cyngor) i'w hystyried gan y Cabinet yn unol â'r darpariaethau a geir yn y Rheolau Gweithdrefnol Trosolwg a Chraffu neu Reolau Gweithdrefnol y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a amlinellir yn Adrannau 7 a 15 y Cyfansoddiad hwn;

(ch) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau Craffu;

(d) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau'r Cabinet;

(dd) adroddiadau gan Aelodau'r Cabinet a/neu Swyddogion yr Awdurdod.

### 5.910.4 Ymgynghori

Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau i'r Cabinet gan unrhyw Aelod o'r Cabinet neu Swyddog ar gynigion yn ymwneud â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi gynnwys manylion am natur a graddau ymgynghoriad a gynhaliwyd â rhanddeiliaid a chyda'r Pwyllgor Craffu a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau ar faterion eraill yn nodi manylion a chanlyniad ymgynghoriadau fel y bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n ofynnol yn briodol i natur y mater sy'n cael ei ystyried.

5.910.5 Pwy gaiff roi Eitemau ar Agenda'r Cabinet?

(a) Yr Arweinydd(ion) fydd yn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet. Caiff ef/hi roi unrhyw fater ar agenda unrhyw gyfarfod o'r Cabinet pa un a yw awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cabinet, un o'i bwyllgorau neu unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas â'r mater hwnnw ai peidio.

(b) Caiff unrhyw Aelod o'r Cabinet fynnu bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod nesaf y Cabinet i'w hystyried.

(c) Caiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Ariannol gynnwys eitem i'w hystyried ar agenda cyfarfod o'r Cabinet a chaiff fynnu bod cyfarfod o'r fath yn cael ei gynnull yn unol â'i (d)dyletswyddau statudol.

(ch) Mewn amgylchiadau eraill, pan fydd unrhyw ddau o Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Prif Swyddog Ariannol a'r Swyddog Monitro o'r farn bod angen galw cyfarfod o'r Cabinet i ystyried mater y mae angen gwneud penderfyniad arno, cânt gynnwys eitem ar agenda cyfarfod o'r Cabinet ar y cyd. Os nad oes cyfarfod i ymdrin â'r mater dan sylw, yna caiff yr unigolyn/unigolion sydd â hawl i gynnwys eitem ar yr agenda fynnu hefyd fod cyfarfod yn cael ei ystyried ac y caiff y mater ei drafod ynddo.

**5.1011 Aflonyddwch gan y Cyhoedd a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol**

5.1011.1 Mae'r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4.30 mewn perthynas ag aflonyddwch gan y cyhoedd yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet.

5.1011.2 Mae'r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4.31 sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet.

**5.12 Arweinyddion Gweithredol ac Aelodau Gweithredol yn rhannu swydd**

5.12.1 Gall unrhyw etholiad neu benodiad i'r Cabinet (gan gynnwys yr Arweinydd) gynnwys ethol dau neu fwy o Gynghorwyr i rannu'r swydd.

5.12.2 Pan fydd dau neu fwy o Aelodau wedi cael eu hethol neu eu penodi i rannu'r un swydd ar Cabinet, yr uchafswm aelodau o'r Cabinet, gan gynnwys yr Arweinydd[ion], fydd:

5.12.2.1 12, pan fydd o leiaf dau aelod wedi cael eu hethol neu eu penodi i rannu swydd; neu

5.12.2.2 13, pan fydd o leiaf tri aelod wedi cael eu hethol neu eu penodi i rannu swydd.

5.12.3 Bydd gan aelodau'r Cabinet sydd yn rhannu'r un swydd, un bleidlais rhyngddynt o ran unrhyw fater lle mae ganddynt yr hawl i bleidleisio oherwydd eu bod yn aelod o'r Cabinet.

5.12.4 Pan fynychir unrhyw gyfarfod gan fwy nag un o'r aelodau sydd yn rhannu'r un swydd a bod yr aelodau hynny'n mynychu yn eu rôl fel aelod o'r Cabinet, gyda'i gilydd maent yn cyfri fel un person er diben pennu p'un a oes cworwm yn y cyfarfod.

**ADRAN 6**

## 6. YR ARWEINYDD

### 6.1 Ethol

6.1.1 Etholir yr Arweinydd(ion) gan y Cyngor Llawn.

6.1.2 Fel arfer, etholir yr Arweinydd(ion) mewn cyfarfod blynyddol o'r Cyngor am dymor y Cyngor. Fodd bynnag, pan fydd swydd yr Arweinydd(ion) yn dod yn wag rhwng etholiadau'r Cyngor, etholir yr Arweinydd(ion) yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

### 6.2 Cyfnod yn y Swydd

Penodir yr Arweinydd(ion) am dymor y Cyngor.

### 6.3 Ymddiswyddo, Diswyddo, Anghymhwyso a Diarddel

6.3.1 Caiff yr Arweinydd(ion) ymddiswyddo o swydd yr Arweinydd(ion) trwy ysgrifennu at y Cadeirydd.

6.3.2 Gellir diswyddo'r Arweinydd(ion) pan fo'r Cyngor yn derbyn penderfyniad i'w (d)diswyddo yn unol â'r Rheolau isod.

6.3.3 Bydd yr Arweinydd yn peidio â bod yn Arweinydd os caiff ef/hi ei (d)diarddel neu ei (h)anghymhwyso fel Cynghorydd, neu os na all gyflawni rôl yr Arweinydd am resymau eraill o'r fath.

6.3.4 Bydd yr Arweinydd yn peidio â bod yn Arweinydd os bydd yn dioddef unrhyw anabledd a fydd yn ei (h)atal neu sy'n debygol o'i (h)atal rhag ymgymryd â rôl yr Arweinydd am gyfnod o dri mis neu fwy, oni -bai bod y Cyngor Llawn yn rhoi ~~caniatad~~caniatâd iddo/i barhau yn ei swydd.

### 6.4 Dirprwy Arweinydd

6.4.1 Penodi

Caiff yr Arweinydd(ion) ddynodi un o Aelodau'r Cabinet yn Ddirprwy Arweinydd.

6.4.2 Dyletswyddau'r Dirprwy Arweinydd

Caiff y Dirprwy Arweinydd(ion) arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd(ion) pan fo'r swydd yn wag neu pan fo'r Arweinydd(ion) yn absennol neu'n methu â gweithredu fel arall.

6.4.3 Diswyddo

Caiff yr Arweinydd~~,~~(ion), os yw ef/hi o'r farn bod hynny'n briodol, ddiswyddo'r Dirprwy Arweinydd(ion) ar unrhyw adeg.

## 6.5 Swyddogaethau ac Awdurdod Dirprwyedig

### 6.5.1 Aelodaeth y Cabinet

Bydd yr Arweinydd(ion) yn penodi a diswyddo Aelodau'r Cabinet yn amodol yn unig ar y gofyniad bod lleiafswm o ddau, ac uchafswm o naw, Aelod o'r Cabinet (heb gyfrif yr Arweinydd) ar unrhyw un adeg. Yn unol ag adran 5.13.2(b), gellir codi'r nifer hwn i 13 yn achos rhannu swydd.

### 6.5.2 Rôl yr Arweinydd

Bydd yr Arweinydd (neu un o'r Arweinyddion) yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet ac yn pennu portffolios Aelodau'r Cabinet.

### 6.5.3 Cynllun Dirprwyo'r Cabinet

Bydd yr Arweinydd(ion) yn paratoi, a chyflwyno i'w gymeradwyo, Cynllun Dirprwyo'r Cabinet sy'n amlinellu'r Swyddogaethau Gweithredol a ddirprwyir, gan gynnwys, awdurdod dirprwyedig pob Aelod o'r Cabinet, ac wedi hynny bydd yn adolygu hyn yn barhaus ac yn cyflwyno diweddariadau i'r Cynllun fel y bo'n briodol. Yn ogystal, mae gan yr Arweinydd(ion) bwerau o dan adran 15(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 i gyflawni'n bersonol unrhyw swyddogaethau Gweithredol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Dirprwyo am y tro, neu drefnu iddynt gael eu cyflawni o dan bwerau dirprwyedig pobl eraill.

(DS: nid oes hawl gan unrhyw Aelod o'r Cabinet i gael Dirprwy, heblaw am yr Arweinydd. Ystyr hyn yw na all unrhyw Aelod o'r Cabinet gael cyfrifoldebau sy'n golygu y bydd yn gweithio i, neu o dan, unrhyw Aelod arall o'r Cabinet, ac eithrio'r Arweinydd).

### 6.5.4 Cyfarfodydd y Cabinet

Yn amodol ar y gofyniad i gyhoeddi rhybudd o bob cyfarfod bum diwrnod gwaith clir cyn iddo ddigwydd, ac amodau eraill a gynhwysir yn Adran 14, gall yr Arweinydd(ion) alw cyfarfodydd y Cabinet ar y cyfryw amseroedd ac yn y cyfryw leoedd ag y mae ef/hi yn dewis (DS: gall Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151, a'r Swyddog Monitro oll alw cyfarfodydd y Cabinet hefyd pe byddai'r angen yn codi).

### 6.5.5 Cadeirio Cyfarfodydd y Cabinet

Bydd yr Arweinydd(ion) yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet. Yn absenoldeb yr Arweinydd bydd y Dirprwy Arweinydd(ion) yn cadeirio. Os nad yw'r Dirprwy Arweinydd(ion) ar gael bydd y Cabinet yn penodi Aelod o'r Cabinet i gadeirio'r cyfarfod ar eu rhan.

### 6.5.6 Penodi Cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol

Mae gan yr Arweinydd(ion) yr awdurdod i benodi cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol lle y mae'r cyrff allanol hynny yn berthnasol i Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor.